## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Eisteddfod yr Urdd |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Nia Jeffreys – Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog perthnasol:** | Ffion Mai Jones |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Mai 2025 |

1. **Penderfyniad a Geisir:**

   Gofynnir i'r Cabinet

   a. Gymeradwyo ymrwymiad mewn egwyddor i wahodd yr Urdd i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwynedd yn 2028

   b. Gymeradwyo cyfraniad o £200k o'r gronfa trawsffurfio fel cyfraniad tuag at gostau cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngwynedd.

2. **Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

   a. Byddai lletya Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn arwain at alw ar adnoddau y Cyngor ac felly gofynnir am sêl bendith y Cabinet.

   b. Cyn cadarnhau ymrwymiad i letya Eisteddfod yr Urdd, bydd angen adnabod a chymeradwyo ffynhonnell ariannu fel cyfraniad ariannol Cyngor Gwynedd.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Mae gofyn i Awdurdodau Lleol fynegi eu diddordeb mewn cynnal Eisteddfod bob pum mlynedd yn arferol, er mwyn gallu cynllunio ymlaen a rhannu'r baich ar draws Awdurdodau Lleol Cymru.

3.2 Dros y 30 mlynedd diwethaf, a chan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol Eifionydd a Llŷn yn Boduan (2023), fe fydd Gwynedd wedi cynnal 4 Eisteddfod Genedlaethol a 3 Eisteddfod yr Urdd.

| Eisteddfod Genedlaethol | Eisteddfod yr Urdd |
|---|---|
| • Llŷn ac Eifionydd (Boduan) 2023<br>• Meirionnydd a'r cyffiniau (Bala) 2009<br>• Eryri a'r cyffiniau (Stad Faenol) 2005<br>• Meirion a'r cyffiniau (Bala) 1997 | • Bala 2014<br>• Glynllifon 2012<br>• Llŷn 1998 |

3.3 Mae dau ranbarth Urdd yng Ngwynedd – Eryri (Arfon/Dwyfor) a Meirionydd.

3.4 Y ddwy Eisteddfod yr Urdd ddiwethaf i'w cynnal yng Ngwynedd oedd Eisteddfod Glynllifon (Eryri) yn 2012 ac Eisteddfod Bala (Meirionydd) yn 2014.

3.5 Mater i'r Urdd a'r pwyllgorau lleol fyddai penderfynu ar ranbarth a lleoliad yr Ŵyl. Yn y gorffennol, mae Cyngor Gwynedd wedi cynorthwyo i adnabod safleoedd addas ac asesu opsiynau i'w hargymell i'r Urdd, a fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol a chytuno ar y safle.

**Adnoddau ac oblygiadau ariannol**

3.6 Mae disgwyliad i'r Cyngor lletya wneud cyfraniad ariannol o £200,000 tuag at gynnal yr Eisteddfod (sy'n cyfateb i 8% o'r holl gostau o gynnal Eisteddfod).

3.7 Yn ogystal, mae cytundeb cenedlaethol drwy Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) o dderbyn cyfraniadau gan holl awdurdodau, yn cael ei ddefnyddio tuag at gostau cynnal dros 200 o Eisteddfodau o fewn y cymunedau, yn ogystal a chostau cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

3.8 Mae oddeutu 30 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal dros Eryri a Meirionnydd yn enw Eisteddfod yr Urdd bob blwyddyn, ac mae rhain yn ddibynnol ar y gytundeb genedlaethol a'r gefnogaeth yma gan yr Awdurdodau Lleol drwy WLGA.

3.9 Mae costau cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd wedi cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ond hefyd y budd economaidd i'r ardal yn sgil croesawu'r ŵyl. Yn 2023, roedd gwerth economaidd yr ŵyl yn Sir Gar yn £8.5 miliwn, ac felly mae'r cyfraniad ariannol gan yr Awdurdod Lleol perthnasol yn fuddsoddiad mewn gŵyl sy'n dod a budd yn ôl i'r ardal.

3.10 Mae'r cyfraniad yn mynd tuag at wariant yr ŵyl o ran safle a maes, ond hefyd o ran buddsoddiad ac ymgysylltiad lleol gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i'w hannog i fod yn ran o ddathliadau a phrosiectau Eisteddfod yr Urdd.

3.11 Mae cynghorau eraill sydd yn lletya eisoes wedi i cytuno i gyfrannu yn ariannol.

3.12 Awgrymir ariannu y cyfraniad ychwanegol hwn o'r gronfa trawsffurfio.

3.13 Yn ogystal â chyfraniad ariannol gan yr Awdurdod byddai lletya yr Eisteddfod yng Ngwynedd yn arwain at angen am adnoddau ychwanegol am amryw reswm:

a. Mewnbwn amryw o swyddogion ar gyfer materion megis trefniadau rheolaeth traffig, cymorth i adnabod tiroedd, cyfathrebu a phresenoldeb yr awdurdod ar y maes. Mae gwaith a chyfarfodydd rhagbaratoi yn cael eu cynnal gyda'r Eisteddfod ymhell dros flwyddyn ymlaen llaw yn arferol.

b. Swyddog prosiect i wneud gwaith ymgysylltu a chyd-lynu.

c. Presenoldeb y Cyngor ar y maes – byddai'r gost o sicrhau presenoldeb ar y maes yn ychwanegol i'r cyfraniad £200k er mwyn cyfarch costau megis stondin a'i addurno

3.14 Byddwn yn cynnal trafodaethau gyda CLlLC i weld os oes posibilrwydd o gyllido unrhyw swyddi trwy arian grant, ac yn bwrw ymlaen er mwyn adnabod unrhyw gronfeydd ariannol eraill all fod o fudd i'r Cyngor petai penderfyniad i gynnal yr Eisteddfod yn 2028 er mwyn cyllido unrhyw gostau cysylltiedig.

3.15 Pe na fyddai llwyddiant mewn denu grantiau ar gyfer y costau hyn, yna bydd gofyn i ystyried bid un tro pellach ar gyfer y pwrpas yma.

**Buddion**

3.16 Byddai cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Ngwynedd yn dod a buddion amlwg i Wynedd gan gynnwys;

- **Plant a Phobl Ifanc** - Cynnal un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop sy'n denu tua 100,000 o ymwelwyr yn flynyddol. Mae dros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cyrraedd y llwyfan cenedlaethol ynghyd â dros 75,000 o gystadleuwyr yn cystadlu'n flynyddol ledled Cymru drwy'r Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth.
- **Gwerth economaidd** - Gwerth economaidd Eisteddfod yr Urdd yn 2023 oedd £16m i Gymru a dros £8.5m o'r cyfanswm hwnnw yn ardal leol yr Eisteddfod Genedlaethol.
- **Iaith** - Bydd gweithgareddau a digwyddiadau paratoi tuag at ac yn ystod yr ŵyl yn y Gymraeg yn cyfrannu'n uniongyrchol at Strategaeth Cymraeg 2050.
- **Diwylliant** - Cyfleu Cymru sy'n llewyrchus a chydnerth, lle mae diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu, gan ddod â chymunedau at ei gilydd.
- **Delwedd y Sir** – Darlledir yr Eisteddfod ar amryw o gyfryngau - cyfanswm o 80 o oriau darlledu teledu a 50 o oriau darlledu radio yn ogystal â chynnwys a sylw yn y wasg leol a chenedlaethol. Presenoldeb amlwg gan Eisteddfod yr Urdd ar y rhwydweithiau cymdeithasol.

**Camau nesaf**

3.17 Pe byddai'r Cabinet yn cymeradwyo y cais hwn, byddwn yn hysbysu'r Urdd o ymrwymiad Gwynedd i letya Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2028.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

“Mae’r adroddiad Cyfrifon Terfynol 2024/25 – Alldro Refeniw, sy’n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod, yn gofyn am benderfyniad y Cabinet i drosglwyddo adnoddau i’r Gronfa Trawsffurfio. Yn ddarostyngedig i gytundeb y Cabinet i wneud hynny, rwyf yn fodlon bydd adnoddau digonol yn y Gronfa i ariannu’r ymrwymiad hwn, os yw hynny’n flaenoriaeth i’r Cabinet. Os na fydd adnoddau digonol yn cael eu trosglwyddo i’r Gronfa Trawsffurfio byddaf yn cynghori’r Cabinet ar ffynonellau amgen.”

**4.2 Swyddog Monitro**

“Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb”